# Cenn@d

MAI 15 2024 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 168

## Mae Sul, 19 Mai, yn Sul y Pentecost!

**Dathlwn ben-blwydd yr Eglwys Gristnogol.**

**Cofiwch am y gwasanaeth Pentecost arbennig a gyhoeddwyd gennym yn rhifyn 167 (8 Mai) o *Cenn@d*!**

# Cytûn yn Penodi Ysgrifennydd Cyffredinol Newydd



Yng nghyfarfod ymddiriedolwyr Cytûn (Eglwysi ynghyd yng Nghymru), fe gadarnhawyd penodi Dr Cynan Llwyd yn Ysgrifennydd Cyffredinol Cytûn o 1 Gorffennaf 2024. Mae'n olynu'r Parch. Siôn Brynach, oedd yn Brif Weithredwr Cytûn tan ddiwedd Ebrill ac sydd bellach yn offeiriad llawn-amser gyda'r Eglwys yng Nghymru.

Brodor o Aberystwyth yw Cynan ond bellach mae'n byw yn Nhrelluest (Grangetown) yng Nghaerdydd gyda'i wraig, Rachel, a'u dau fab. Mae'n ddiacon yn Eglwys Ebeneser, Caerdydd (Annibynwyr) ac yn un o arweinwyr Angor Grangetown, sy'n un o fentrau arloesi Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Astudiodd y Gymraeg ym Mhrifysgol Caerdydd ac mae ganddo MPhil o Brifysgol Aberystwyth a PhD o Brifysgol Caerdydd, lle cyflawnodd ymchwil ar 'Athrawiaeth yr Ailddyfodiad a'r Milflwyddiant yng ngwaith rhai o'r Piwritaniaid Cymreig a'u goblygiadau cymdeithasol yng Nghymru'.

Mae ganddo brofiad helaeth o weithio ag eglwysi ac elusennau yng Nghymru. Bu'n gweithio fel cynorthwyydd bugeiliol yn eglwysi San Mihangel a'r Santes Fair, Aberystwyth, cyn cael ei benodi'n Swyddog Plant a Phobl Ifanc, Llenyddiaeth Cymru. Mae wedi gweithio i Gymorth Cristnogol fel Cydlynydd Rhanbarthol De Cymru ac yna'n Bennaeth Dros Dro. Ar hyn o bryd ef yw Pennaeth Tearfund Cymru. Mae hefyd yn awdur, ac mae gwasg y Lolfa wedi cyhoeddi dwy nofel o'i eiddo i bobl ifanc; mae ei drydedd nofel ar fin ei chyhoeddi gan Lyfrau Broga.

Croesawyd Cynan yn gynnes gan aelodau'r cyfarfod. Dywedodd Cadeirydd Cytûn, y Barch. Jennifer Hurd, 'Mae'n braf iawn croesawu Cynan fel Ysgrifennydd Cyffredinol newydd Cytûn a'i longyfarch ar ei benodiad. Dw i'n edrych ymlaen at gydweithio tra dw i'n gwasanaethu fel Cadeirydd Ymddiriedolwyr Cytûn. Boed i Dduw fendithio gwaith Cynan efo'r eglwysi yng Nghymru er mwyn i ni nesáu at ein gilydd a chydweithio er mwyn teyrnas Dduw.'

Ymatebodd Cynan, 'Mae'n anrhydedd ac yn fraint cael fy mhenodi'n Ysgrifennydd Cyffredinol Cytûn. Edrychaf ymlaen at gydweithio â'r eglwysi yng Nghymru wrth i ni geisio ewyllys Duw gyda'n gilydd, y byddwn "yn un fel dŷn ni yn un" (Ioan 17:22). Mae'n gyfnod cyffrous a heriol i ni fel eglwysi a gweddïaf y tyfwn yn agosach at Dduw ac at ein gilydd dros y cyfnod sydd i ddod.'

**Cytûn yn y digwyddiadau cenedlaethol dros yr haf**

Os byddwch yn mynd i gyfeiriad Eisteddfod yr Urdd ym Meifod ddiwedd y mis, cofiwch alw i mewn ym Mhabell yr Eglwysi ar y maes. Bydd llu o weithgareddau ar gael i blant, a digon o adnoddau i'w prynu. Bydd fferins a diodydd am ddim i blant hefyd, a chyfle am sgwrs. Croeso cynnes i bawb.

Byddwn hefyd yn y Sioe Fawr ym mis Gorffennaf ac yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mhontypridd. Oherwydd mai maes bychan iawn yw Parc Angharad, lle mae'r Eisteddfod yn cael ei chynnal eleni, byddwn hefyd yn defnyddio eglwys Santes Catrin ynghanol y dre ar gyfer ein lluniaeth ac ar gyfer yr oedfaon a'r digwyddiadau.

Mae angen gwirfoddolwyr arnom i weini paneidiau ac estyn croeso. Bydd cyfarfod i drefnu ar gyfer yr Eisteddfod yn Eglwys Santes Catrin, Pontypridd, nos Lun, 10 Mehefin, am 7 o'r gloch. Mae croeso i eglwysi'r sir ac ardal Caerdydd i'r cyfarfod hwn, er mwyn inni baratoi i groesawu pobl atom yn ystod mis Awst.

Cadeirydd newydd i Bwyllgor Cenedlaethol Cymorth Cristnogol Cymru
Tudalen 2

Y Parchedig Elwyn Pryse yn dathlu 70 mlynedd ers ei ordeinio
Tudalen 7

Cangen Gogledd-orllewin Cymru o'r Samariaid yn nodi 40 mlynedd o wrando
Tudalen 8

# Ymunwch efo ni mewn addoliad, gweddi a gweithred yr Wythnos Cymorth Cristnogol hon: 12–18 Mai 2024

**Thema deunyddiau'r gwasanaeth ar gyfer yr wythnos ydy 'Cariad Rhyfeddol'. Trwy weddi, yr ysgrythur a chân, fe gawn gyfle i archwilio gyda'n gilydd gariad Duw tuag aton ni a'n galwad i garu ein cymydog. Cawn glywed am Aline Nibogora o dalaith Makamba yn Burundi, a'r ffordd y mae hi wedi dal ati yn wyneb cymaint o anfanteision, gan ddyfalbarhau mewn ffydd, gobaith a chariad.**



Aline Nibogora yn gweddïo gyda'i theulu yn eu cartref yn Nhalaith Makamba, Burundi.

## Stori Aline

Burundi yw un o wledydd tlotaf y byd yn ariannol. Mae mwy na 70% o'r boblogaeth yn byw mewn tlodi. Gwynebodd Aline Nibogora heriau ychwanegol. Wedi goroesi trais yn y cartref, roedd Aline yn ddigartref, wedi'i gwahanu o'i phlant ac yn byw ar ymylon eithaf tlodi.

## Gwthiwyd Aline at ymylon eithaf goroesi, ond gwthiodd Aline yn ôl

Ymunodd Aline â gweithdy gan hyfforddwyr a ariannwyd gan Cymorth Cristnogol. Dysgodd Aline am Cymdeithas Cynilion a Benthyciadau Pentref (CCBP). Defnyddiodd Aline benthyciad i adeiladu busnes llwyddiannus. Mae wedi'i haduno â'i thri mab ac yn adeiladu cartref iddynt i gyd. Cadeirydd CCBP yw Aline sy'n rhoi cymorth i 25 teulu yn ei chymuned.


## Gweddi Wythnos Cymorth Cristnogol 2024

Dduw cariadlon,
Helpa ni i glywed lleisiau'r rhai sy'n dioddef tlodi eithafol. Mae hi'n anodd gwrando ar straeon am boen. Dangos inni sut y gall tosturi dros eraill ddod ag iachâd a llawnder bywyd i bawb.
Helpa ni i ddeall ein bod yn un trwy dy gariad, gan dy fod ti'n caru pob bod dynol, y tu hwnt i fesur.

Dduw cariadlon, rwyt ti'n ein galw i adeiladu dy deyrnas o gyfiawnder, trugaredd, a gwirionedd.
Nid gorchwyl i rai gwangalon ydy hwn.
Pan fyddwn ni'n colli ein hymdeimlad o bwrpas, llenwa ni â ffydd.
Pan fyddwn ni'n amau neu'n cael ein llethu gan anobaith, llenwa ni â gobaith.
Pan fyddwn ni'n mynd heibio i'n cymydog fel petai ni ddim yn eu nabod,
Llenwa ni â'r cariad hwnnw sy'n ein troi ni'n ôl ac yn ein tywys i estyn cymorth iddyn nhw.

Yn enw Iesu, Amen.

# Cadeirydd newydd i Bwyllgor Cenedlaethol Cymorth Cristnogol Cymru



Cyhoeddwyd bod y Parch. Andrew Sully, Arweinydd Ardal Bro Gorllewin Caerdydd, wedi ei ddewis yn gadeirydd newydd Pwyllgor Ymgynghori Cenedlaethol Cymorth Cristnogol Cymru.

Cymorth Cristnogol ydy asiantaeth ddyngarol a datblygiad rhyngwladol eglwysi Ynysoedd Prydain ac Iwerddon, ac mae'r Pwyllgor Cenedlaethol yn gwasanaethu fel corff cynghori i'w Bwrdd Ymddiriedolwyr, yn ogystal ag ymgysylltu ag eglwysi, cefnogwyr a sefydliadau eraill yng Nghymru er mwyn cefnogi gwaith yr elusen mewn cymunedau bregus ledled y byd.

Mae Andrew, a fu'n gwasanaethu'n ddiweddar fel Pennaeth Dros Dro i'r mudiad yng Nghymru, yn gadeirydd Grŵp Cymorth Cristnogol Eglwys Gadeiriol Llandaf a bydd hefyd yn ymuno â Bwrdd Ymddiriedolwyr Cymorth Cristnogol.

Cafodd Andrew ei hyfforddiant yng Ngholeg Queen's, Birmingham, ynghyd â'i wraig, Mary, sy'n Esgob Llandaf – ac mae'r ddau wedi bod yn gefnogwyr brwd i Gymorth Cristnogol ers blynyddoedd lawer.

Cyn ymgartrefu yn Llandaf, bu Andrew yn offeiriad, ac mae wedi gweithio ym mhump o chwe esgobaeth Cymru.

(parhad ar y dudalen nesaf)

***Cadeirydd newydd i Bwyllgor Cenedlaethol Cymorth Cristnogol Cymru***
*(parhad o dudalen 2)*

Yn ystod y cyfnod hwnnw, fe fyddai'n aml yn derbyn rôl swyddog ecwmenaidd, yn hyrwyddo'r gydberthynas rhwng eglwysi o wahanol enwadau. Cafodd secondiad am gyfnod gyda Cytûn/Eglwysi Ynghyd yng Nghymru fel swyddog maes yn y gogledd.

Mae Andrew wedi bod yn weithgar ar ran Cymorth Cristnogol dros y 30 mlynedd diwethaf, gan gymryd rhan mewn ymgyrchoedd allweddol a gweithgareddau codi arian. Roedd y rhain yn cynnwys seiclo o Lundain i Copenhagen ar gyfer trafodaethau COP yn 2009, o Lundain i Baris ac ar hyd Lôn Las Cymru. Yn fwy diweddar, bu'n cerdded cestyll Cymru yn y gogledd a llwybr pererinion o Landaf i Ben-rhys ar gyfer Wythnos Cymorth Cristnogol 2024.

Dywedodd Andrew, sy'n olynu'r Parch. Nan Powell-Davies fel Cadeirydd:

> Fy ngobaith ydy dod â'm gwybodaeth a'm profiad o Gymru a'i chymunedau i'r rôl hon. A dwi'n edrych ymlaen at gefnogi Mari a thîm Cymorth Cristnogol Cymru, yn ogystal â bwrdd a staff ehangach Cymorth Cristnogol. Mae'r dasg o ddileu tlodi mor berthnasol ag erioed yn y cyfnod hwn o argyfwng hinsawdd, ac mae Cymorth Cristnogol yn allweddol i bontio rhwng cymunedau sydd dan dlodi yn fyd-eang ac eglwysi yng Nghymru a gweddill y Deyrnas Unedig.

Dywedodd Mari McNeill, Pennaeth Cymorth Cristnogol Cymru:

> Daw Andrew â gwybodaeth helaeth am Gymru a'i chymunedau i'r rôl hon. Rydyn ni wrth ein bodd ein bod yn gallu parhau i weithio gydag e i ymgysylltu â chefnogwyr, eglwysi a mudiadau eraill er mwyn codi arian ac ymgyrchu yn ein hymdrechion i fynd i'r afael â thlodi ac anghyfiawnder yn fyd-eang.

Daw'r datganiad ar drothwy Wythnos Cymorth Cristnogol, 12–18 Mai, pan fydd cannoedd o wirfoddolwyr a chymunedau'n paratoi i weithredu ar dlodi yn fyd-eang, drwy amryw o heriau a digwyddiadau cymunedol i godi arian.

Isod, ceir gweddi ar gyfer yr wythnos gan y Cadeirydd newydd.

## O Dduw ein pererindod daearol,

**rwyt ti yn ein gwahodd i deithio gyda thi ac i ddarganfod ym mhobl a llefydd newydd Dy bresenoldeb gyda ni.**

**Bendithia waith Cymorth Cristnogol wrth i ni ddod o hyd i ffyrdd newydd o'th weld di yn y rhai rydyn ni'n eu cyfarfod yn y cnawd ac yn y rhai ar lannau eraill ac mewn gwledydd eraill sydd hefyd wedi'u creu yn dy ddelw.**

**Helpa ni i ymrwymo o'r newydd i'th werthoedd o gyfiawnder a heddwch, o urddas a chariad, o dosturi a chydraddoldeb, drwy gydol yr Wythnos Cymorth Cristnogol hon.**

**Yn enw'r un sy'n cerdded yn ein hymyl ar y Ffordd, Iesu Grist ein Harglwydd.**
**Amen**

Gweithred yw Gobaith
Hope is an Action

Urdd

Llond cist
o lofnodion,
a chanrif o sôn
am Gymru
heddychlon.

Ond heddiw,
a oes heddwch?

Cawn gip,
rhywle
rhwng y sŵn
a'r llwch,
yn llewyrch llygaid
y plentyn bach
sy'n hedfan barcud
yn yr awyr iach.

Gan mai gweithred yw gobaith
i fyw yn gytûn,
i blannu daioni
yng nghalon
pob un.

Ond heddiw,
a oes heddwch?

Oes,
yng nghariad
a harmoni'r gân -
yn her canrif newydd
y ddalen lân.



Neges Heddwch ac Ewyllys Da 2024
2024 Peace and Goodwill Message

(parhad ar y dudalen nesaf)

# Neges Heddwch ac Ewyllys Da Urdd Gobaith Cymru, 18 Mai 2024

Urdd

## Gweithred yw Gobaith

## Beth yw Neges Heddwch ac Ewyllys Da Yr Urdd?

Ers dros ganrif, mae phobl ifanc Cymru wedi galw ar y byd i weithredu ar faterion gwahanol bob blwyddyn gyda'r Neges Heddwch ac Ewyllys Da. Mae'r neges yn unigryw i Gymru. Mae'n adlewyrchu dyheadau'r bobl ifanc yn ein cymdeithas heddiw.

### Neges 2024:

**Dathlu Canrif ers Deiseb Menywod Cymru a GWEITHREDU DROS HEDDWCH HEDDIW.**

Bwriad Neges Heddwch ac Ewyllys Da eleni yw dathlu Deiseb Heddwch Menywod Cymru a arwyddwyd gan 390,296 o fenywod Cymru yn 1923-1924. Canrif yn ddiweddarach, dyma ddatgan bod merched ifanc Cymru yn parhau i weithredu dros heddwch. Mae'r neges yn ein hysbrydoli i weithredu dros heddwch. Mae'n pwysleisio nad rhyfel a thrais yw'r ateb, ac yn ein hannog i arwain a chydweithredu dros ddyfodol gwell i bawb.

Crëwyd y neges ar y cyd rhwng y bardd a'r gantores Casi Wyn gyda gwirfoddolwyr, staff a prentisiaid yr Urdd a myfyrwyr Coleg Caerdydd a'r Fro.

Cardiff and Vale College
Coleg Caerdydd a'r Fro

**Cefnogwch y neges bwerus ar 17 Mai 2024**




## Sut i gefnogi Neges Heddwch 2024

### Cefnogwch ar Mai 17:

**Rhannwch** a **chefnogwch** ein Neges Heddwch ac Ewyllys Da ar y cyfryngau cymdeithasol ar 17 Mai 2024, gan ddefnyddio **#Heddwch2024**

**Rhannwch** gwaith o **Weithgaredd 7** ('Hedfan Barcud dros Heddwch') y Pecyn Addysg gyda **#Heddwch2024**

### Sut i gefnogi cyn Mai 17:

**Ewch yma i'r wefan ble allwch:**

- Darllen a lawrlwytho'r neges mewn dros 50 o ieithoedd.
- Lawrlwytho ein pecyn addysg a chynnal sesiynau gyda phlant a phobl ifanc ar y pwnc yn eich ysgol, sefydliad, neu gymuned.

**Eisiau gwybod mwy? Cysylltwch â ni**

heddwch@urdd.org

urdd.cymru/heddwch

### Beth yw'r Urdd?

Urdd Gobaith Cymru yw sefydliad ieuenctid cenedlaethol mwyaf Cymru sydd wedi meithrin dros 4 miliwn o bobl ifanc ers ei sefydlu yn 1922 i ymfalchïo yn eu gwlad ac yn agored i'r byd.

**Diolch am eich cefnogaeth**

# Dathlu 25 mlynedd o weinidogaeth

Bum mlynedd ar hugain yn ôl daeth y Parch. T. Evan Morgan i arwain dwy eglwys yma yn y brifddinas – Capel Bethel, Rhiwbeina, a Chapel Salem, Treganna. O'r dechrau'n deg roedd gan Evan gynlluniau newydd a brwdfrydedd heintus i weinidogaethu'n wahanol.

Yn Salem cyflwynodd sawl prosiect beiddgar dros y blynyddoedd gan sicrhau bod y capel yn ganolfan brysur drwy gydol yr wythnos ac yn rhan bwysig o'r gymuned leol. Mae e'n parhau i feddwl am gynlluniau newydd yn gyson gan sicrhau bod y capel yn symud ymlaen ac yn cynnig ffyrdd gwahanol, perthnasol i wasanaethu Crist yn ein cymuned.

Cafodd Evan ddathliadau hyfryd yn y ddau gapel er mwyn i ni'r aelodau a ffrindiau ddiolch iddo am ei wasanaeth.

Yn Salem fore Sul, 21 Ebrill, cyn i Evan ddechrau oedfa'r bore, cafwyd teyrnged arbennig iawn iddo gan Mr Glyn Williams, un o'r blaenoriaid. Diolchodd i Evan ar ran pawb am fod yn fugail gofalus, egnïol ac am iddo bwysleisio gwerth a phwysigrwydd llawenydd yn ein haddoliad. Cyfansoddodd a darllenodd Aron Pritchard gerdd grefftus i gyfarch Evan, a darllenwyd englyn hyfryd o waith y blaenor Dewi Rhisiart i ddathlu'r achlysur.

Wedi i'r cwrdd orffen, aeth pawb i'r festri i barhau â'r dathlu a chymdeithasu dros ginio, a mwynhaodd pawb y bwffe blasus a chacen.

Braf a braint oedd gallu dangos ein gwerthfawrogiad i Evan am ei wasanaeth dros y pum mlynedd ar hugain diwethaf.

*Siwan Mathews*



I Evan ar achlysur dathlu 25 mlynedd yn weinidog yn Salem, Treganna

Mae afiaith Salem, Evan, – yn tystio
I ti estyn allan
Diogel law'r Ysbryd Glân
A gafael mewn praidd gyfan.

*Dewi Rhisiart*

# Dydd Gweddi'r Byd



Cafwyd cyfarfod buddiol iawn o Is-bwyllgor Cymraeg (Rhyngenwadol) Dydd Gweddi'r Byd, dydd Mercher, 24 Ebrill, yn festri Capel y Garn, Bow Street, ac aml un ar Zoom. Anfonwyd ein cyfarchion cynhesaf at y Trysorydd, Margaret Morgan, gan ddymuno gwellhad llwyr a buan iddi. Fe welwyd ei heisiau yn fawr iawn.

Daeth tymor Miriam Lewis fel Llywydd i ben ar ôl iddi ddod i'r adwy ers blynyddoedd maith. Mae ein gwerthfawrogiad yn enfawr iddi am ei harweiniad, ei doethineb a'i dyfalbarhad, a daeth Llywydd newydd, Rhianwen Huws Roberts, i'r gadair – dymunwn pob rhwyddineb iddi i'r dyfodol.

Bydd gwybodaeth am y grantiau sydd yn cael eu cymeradwyo a'u cefnogi yn dod yn fuan, ynghyd â gwybodaeth am y cynadleddau a gynhelir yn ystod Tachwedd 2024.

*Parchg Carys Ann a'r Parchg Beti-Wyn James*
*Swyddogion Cyhoeddusrwydd*

# 15 mlynedd o olygu




Bu'r Parch. Iain Hodgins a'i fab, y Parch. Jonathan Hodgins, yn golygu cylchgrawn misol Eglwys Bresbyteraidd Cymru, *The Treasury,* ers 15 mlynedd. Saesneg yw cyfrwng *The Treasury* ac mae'n gwasanaethu eglwysi cyfrwng Saesneg yr enwad. Fel chwaer gyhoeddiad i *Cenn@d,* felly, fe garem ninnau longyfarch Iain a Jonathan Hodgins am eu llafur yn cywain, yn ysgrifennu ac yn golygu dros y cyfnod yma. Mae Iain yn ymddeol o'i gyfrifoldeb gyda'r cyhoeddiad oherwydd gwaeledd, ond yn parhau i gyfrannu at y cylchgrawn ac yn cael pleser o wneud hynny. Gweddïwn fendith arnynt fel teulu ar yr adeg hon.

I ddarllen y rhifyn diweddaraf, dilynwch y ddolen hon: Treasury | The Presbyterian Church of Wales (ebcpcw.cymru)

# *Gair Duw ar Waith*
## gan Denzil I. John

**Casgliad o fyfyrdodau yn canolbwyntio ar roi ein ffydd ar waith yn ymarferol mewn bywyd bob dydd**




**Pennod 24**
**Dweud y stori**

**Darlleniad: Actau 2:1–4; 22–36 (Sulgwyn)**

### Gweddi
Nefol Dad, yr hwn a roddaist i ni iaith a geirfa, helpa ni i'w defnyddio i rannu'n stori ag eraill, waeth pa mor ansicr neu ddihyder bynnag y teimlwn weithiau. Maddau i ni am gloncan am bopeth ond am ein ffydd. Amen.

### Cyflwyniad
Bydd llawer yn cyflwyno Llyfr yr Actau fel dogfen i grynhoi bwrlwm yr Eglwys Fore ar dir yr Iddewon ac oddi cartref mewn gwledydd eraill. Ceir yn y gwaith grynodeb o bregethu'r apostolion a nodweddion sylfaenol dysgeidiaeth yr Eglwys. Cyfeirir at waith cenhadol Paul a Pedr, a bod y ddau fel ei gilydd yn arweinwyr cyfartal yng ngwaith yr Eglwys Fore. Fel yn hanes Philip yn yr Actau, Pennod 8, roedd yr apostolion yn hyderus i ddweud eu stori a rhannu eu dealltwriaeth o fywyd Iesu a'u profiad hwy o'r Iesu atgyfodedig. Dyna waith a braint yr eglwys ar draws y canrifoedd a'r cyfandiroedd, boed yn genhadaeth yn enw corff o Gristnogion neu'n ddyhead unigolyn. Er bod gan lawer y ddawn i bregethu, mae angen llawer mwy o bobl i ddatblygu'r modd a'r cyfleoedd i sgwrsio am Iesu wrth bobl eraill.

### Myfyrdod
Mae'n nodwedd naturiol i bawb 'ddweud ei stori' neu 'adrodd yr hanes'. Mae'n amhosibl peidio â chlywed ambell sgwrs rhwng pobl eraill mewn mannau cyhoeddus, wrth eistedd ar fws neu fwyta mewn caffi, er enghraifft. Yn amlach na pheidio, bydd y sgwrs yn sôn am brofiad personol neu hanes rhywun o fewn cylch ein cydnabod. Bydd y sgyrsiau hyn yn cyflwyno pob math o droeon trwstan bywyd, ond anaml y bydd yr hanes yn sôn am brofiad ysbrydol. Bydd rhai'n frwdfrydig yn cynnig sylw ar chwaraeon neu wleidyddiaeth, ond prin am fywyd eglwysig. Pa mor aml y byddwn yn rhannu ein profiadau a'n hargyhoeddiadau ysbrydol ag unrhyw un arall, neu'n sôn am ddigwyddiadau cyffrous yn yr eglwys?

Bydd rhyfeddod y Pentecost yn ysgogi dwyn tystiolaeth yr eglwys, a bydd eglwysi mewn rhai ardaloedd yn cael mynediad i ysgolion gyda chynllun 'Agor y Llyfr'. Am ddegawd a mwy, defnyddiwyd festri'r Tabernacl, Caerdydd, fel man i lwyfannu 'Drama'r Nadolig', sef cyflwyniad ar feim gan actorion byw i ddweud hanes y Nadolig. Gwelwyd hyd at 150 o bobl yn cydweithio i gynnig tua 200 o gyflwyniadau theatrig yn y festri yn dweud stori'r Nadolig. Mae'n gyfle i bawb wneud rhywbeth, ac os nad oes gennym yr hyder i gerdded y rhan ar lwyfan gallem fod yn gweithio fel un o'r stiwardiaid am ddiwrnod. Bydd yr actorion yng Nghaerdydd yn cynrychioli llu o eglwysi, a bellach mae cylchoedd eraill yng Nghymru yn trefnu eu cyflwyniadau hwythau, gan ddefnyddio sgript sylfaenol y fenter yng Nghaerdydd. Mae yna dlodi enbyd ymhlith y cenedlaethau iau yn ein cymdeithas o destun sylfaenol ein ffydd. Dweud y stori sy'n bwysig, nid safon yr actio!

Aeth y dystiolaeth bersonol yn dawedog yng Nghymru, fel pe bai rhannu ein profiadau ysbrydol yn peri cywilydd neu'n weithgarwch anffasiynol. Tybed? Nid dysgu sgript neu actio drama yw'r hyn y gofynnir i ni ei wneud, ond bwrw ati i sôn am ein profiadau ysbrydol yn ein geiriau naturiol ein hunain. Beth amdani yn nerth y Sulgwyn?

### Gweddi
Arglwydd Iesu, diolch am bob un sy'n enwau cyfarwydd a rannodd eu profiad ohonot, am bob Paul a Pedr, pob pregethwr a chenhadwr. Diolchwn am emynwyr a beirdd y gorffennol, am gerddorion ac artistiaid, dramodwyr ac awduron a ddefnyddiodd eu doniau i ddweud eu stori. Helpa ni i ddweud ein stori ni, ac i helpu eraill i glywed y newyddion da yn ein geiriau ein hunain. Amen.

### Cwestiynau i'w hystyried
1. Ai realiti neu stori ddychmygol yw hanes y Pentecost?
2. Sut fyddech chi'n helpu rhywun arall i ddeall beth yw hanfod hanes y Pentecost?
3. Pa emyn sy'n sôn am y Sulgwyn sy'n eich cyffroi fwyaf?
4. Os nad ydych yn gyfarwydd â chynllun 'Agor y Llyfr', holwch prif swyddfa eich corff enwadol am arweiniad. Gellir defnyddio'r adnodd mewn oedfa neu wasanaeth ysgol, neu oddi ar gefn treiler ar fore Sadwrn.
5. Rhannwch â'ch grŵp trafod un o'ch profiadau ysbrydol mwyaf cyffrous.

S4C

*Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 19 Mai, am 7.30yh**

*Cymorth Cristnogol*
Bydd Lowri Morgan yn cwrdd ag arweinydd Cymorth Cristnogol yng Nghymru, Mari McNeill, i ddysgu sut mae'r elusen yn ymgyrchu i godi arian a gweithio'n rhyngwladol i godi pobl allan o dlodi. Cawn fwynhau gwledd o ganu mawl o Gapel y Tabernacl, Efail Isaf.

BBC radio cymru

*Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 19 Mai, am 7:30yb a 16:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Geraint Rees

*Oedfa Radio Cymru*
**Sul, 19 Mai, am 12yp**
Oedfa dan ofal Bronwen Morgan, Llangeitho

# Y Parchedig Elwyn Pryse yn dathlu 70 mlynedd ers ei ordeinio

Yn Sasiwn y De (EBC) ar 1 Mai, cafodd y Parchedig Elwyn Pryse, Bow Street, ei longyfarch ar ddathlu 70 mlynedd ers ei ordeinio i'r weinidogaeth. Aeth Marian Beech Hughes i gael ychydig o hanes ei yrfa faith.

**MBH**: Llongyfarchiadau calonnog iawn ar gyrraedd y garreg filltir arbennig hon! Rhowch ychydig o hanes eich cefndir a'ch magwraeth.

**EP**: Cefais fy magu ar aelwyd Gristionogol ym mryniau Ysbyty Ystwyth yng nghefn gwlad Ceredigion. Fy mam oedd y dylanwad mwyaf arnaf yn y cartref, a hithau wedi byw drwy ddiwygiad 1904. A byddwn innau'n mynychu'r ysgol Sul yn Ysbyty Ystwyth yn gyson.

Roedd yr ardal yn ddylanwad mawr arnaf hefyd – ardal ddiwylliedig iawn, gyda 'socials' yn cael eu cynnal yn gyson yn y capel. Roeddwn yn hoff iawn o adrodd, ac enillais fy nghwpan cyntaf yn y gamp pan oeddwn yn saith oed. Uchafbwynt fy ngyrfa yn y maes adrodd, mae'n debyg, oedd ennill yn y Genedlaethol yng Nghaerffili yn 1950.

Yn drist iawn, collais fy rhieini'n ifanc, ond cefais ofal arbennig gan fy chwaer, Bertha, a'i gŵr, Ceredig, a fu'n garedig iawn wrthyf.

**MBH**: Pryd a sut y gwnaethoch chi ymdeimlo â galwad i'r weinidogaeth?

**EP**: Es i ymlaen o'r ysgol gynradd i Ysgol Sir Tregaron, a dod dan ddylanwad yr athrawon yno. Mae'n rhyfeddol i mi lwyddo i basio arholiadau Central Welsh Board o gwbl gan imi golli tri mis o ysgol ychydig cyn yr arholiadau. Oherwydd eira mawr gaeaf 1947 doedd hi ddim yn bosib imi gyrraedd yr ysgol. Ond fe ddes i drwyddi!

Pan oeddwn i tua 17 oed, dywedodd y Prifathro, y Prifardd D. Lloyd Jenkins, wrthyf, 'Y weinidogaeth i chi, Elwyn!' Ac felly y buodd hi yn fy hanes. Fuodd yna ddim edrych yn ôl wedyn.

Ac rwy'n falch o ddweud y gallaf olrhain deugain aelod o'r teulu sydd wedi'u hordeinio.

**MBH**: Ble gawsoch chi eich hyfforddi ar gyfer y weinidogaeth, a pha brofiadau yno sydd wedi aros yn y cof?



**EP**: O ysgol Tregaron es i i Goleg Trefeca am ddwy flynedd jyst i ddysgu Groeg. Wel, dyna i chi wastraff! Wedyn, ymlaen i'r Coleg Diwinyddol yn Aberystwyth.

Un profiad a gofiaf yn dda o'r cyfnod hwn oedd y 'streic fawr'. Cafodd criw ohonom ein cyhuddo – ar gam – gan y Prifathro, W. R. Williams, o rwygo soffa yr oedd wedi'i chael gan y Tsar o Rwsia, fe honnid. Bu'n dipyn o helynt, ac arweiniodd hyn at streic yn ein plith ni'r myfyrwyr!

I agor tymor Cymdeithas y Tabernacl, Aberystwyth, un flwyddyn, yr oedd noson lawen wedi'i threfnu, a minnau wedi cael gwahoddiad i adrodd yno. Roedd merch ifanc o'r enw Tegwen yno'n unawdydd, a dyma'i hebrwng adref ar ddiwedd y noson. A dyna ddechrau perthynas a fu'n allweddol i mi yn fy ngweinidogaeth. Cawsom ddeugain mlynedd o briodas hapus, a bûm yn ffodus o gael Tegwen yn gefn mawr i mi drwy gydol yr amser nes imi ei cholli yn 2013.

**MBH**: Pa ardal a'ch denodd i weinidogaethu ynddi fel gweinidog ifanc?

**EP**: Yn 23 oed, cefais fy ordeinio yn Sasiwn y De yng Nghaerfyrddin yn 1954 – a dwi'n meddwl fy mod yn un o'r rhai ieuengaf erioed i gael fy ordeinio. Yn ardal Wrecsam y dechreuais fy ngweinidogaeth, a hynny ar eglwysi Rhosllannerchrugog, Johnstown a Rhiwabon.

Roedd y flwyddyn 1954 wedi'i henwi'n 'Flwyddyn y Deffro' gan ei bod hanner can mlynedd ar ôl Diwygiad 1904. Ond siom a gafwyd ar ddiwedd y flwyddyn, pan welwyd nad oeddem fel Cyfundeb wedi llwyddo i gynyddu nifer yr aelodau. Yn wir, roeddem wedi colli 2,000 o aelodau yn ystod y flwyddyn – tuedd sydd wedi parhau byth ers hynny.

**MBH**: Ond fe wnaethoch chi symud i sawl ardal, cyn dod yn ôl i Geredigion ar ddiwedd eich gweinidogaeth ac ymddeol yno.

**EP**: Do, roedd tynfa yn ôl i gefn gwlad, ac ar ôl pedair blynedd a hanner symudais i Lanrhaeadr-ym-Mochnant. Bûm yn hapus yn y ddwy ofalaeth, cyn symud wedyn i Lanymddyfri, lle treuliais ddeng mlynedd dedwydd iawn, ac yno y ganed ein mab, Maldwyn. Yna, symud i'r Borth yng Ngheredigion a gweinidogaethu ar ofalaeth y Garn hefyd yn nes ymlaen, pan unwyd y ddwy ofalaeth. Ar gyngor meddygol, fe wnes i ymddeol yn gynnar, yn 62 oed, ond fe ddaliais i bregethu hyd at 2020.

**MBH**: Beth yw'r newidiadau mwyaf rydych chi wedi'u gweld o ran y dystiolaeth Gristnogol yng Nghymru yn ystod y 70 mlynedd diwethaf hyn?

**EP**: Pan oeddwn yn dechrau fy ngweinidogaeth, roedd 13 o weinidogion yn y Rhos, pump ohonom yn weinidogion i'r Hen Gorff. Ond mae yna ddirywiad cyson wedi bod ers hynny.

Yn ystod y cyfnod hwnnw, teimlaf ein bod wedi gweld cynnydd mewn bydolrwydd. Mae dau beth wedi digwydd ochr yn ochr: wrth i'r capeli wagio, mae'r carchardai'n gorlenwi.

**MBH**: Beth oedd yn rhoi'r mwyaf o bleser i chi yn eich gwaith fel gweinidog?

**EP**: Y gwaith bugeilio a gweithio gyda'r ieuenctid. Yn wir, fe wnes i fwynhau'r weinidogaeth yn fawr iawn, ac fe fyddwn i'n barod iawn i wneud y gwaith eto.

**MBH**: Pa fath ddyfodol sydd i Gristnogaeth yng Nghymru, yn eich barn chi?

**EP**: Rwyf yn ymddiddori yn hanes yr eglwys Gristionogol, a sylwaf fod cyfnodau o drai yn dilyn llanw wedi bod ar hyd y canrifoedd. Rwy'n obeithiol am ddyfodol y grefydd Gristionogol, a'r hyn sy'n rhoi cysur i mi yw'r geiriau 'Canys Eiddot **Ti** yw'r Deyrnas'. Rwy'n hyderus y bydd Duw eto'n ein hailfywhau.

**MBH**: Diolch yn fawr iawn i chi am eich atebion ac am eich gweinidogaeth gyfoethog, a phob dymuniad da i chi.

# Cangen Gogledd-orllewin Cymru o'r Samariaid yn nodi 40 mlynedd o wrando


SAMARIAID
Gogledd Orllewin Cymru

Cafodd mudiad y Samariaid ei sefydlu yn 1953 gan Chad Varah, oedd yn ficer yn Eglwys Loegr. Un o'i ddyletswyddau yn ei swydd gyntaf yn ei ardal enedigol, Lincoln, oedd gweinyddu mewn angladd merch 14 oed oedd wedi rhoi diwedd ar ei bywyd pan ddechreuodd ar ei misglwyf a meddwl mai'r diafol oedd wedi'i meddiannu. Doedd ganddi neb i rannu ei phryder, a chafodd hyn argraff ddofn ar y Chad ifanc.

Ychydig flynyddoedd yn ddiweddarach, sefydlodd y Samariaid, gyda'r nod o gynnig math o wasanaeth 999 i'r rhai oedd yn meddwl rhoi diwedd ar eu bywyd. Roedd y gangen gyntaf yn festri eglwys Chad Varah yn St Stephen Walbrook yn Llundain. Heddiw, mae gan y Samariaid dros 200 o ganghennau ledled gwledydd Prydain ac Iwerddon. Mae holl wirfoddolwyr y Samariaid yn cynnig eu gwasanaeth am ddim ac yn treulio bron i filiwn o oriau bob blwyddyn yn ceisio gwneud gwahaniaeth i fywydau'r rhai sy'n galw.

Clust i wrando yw'r gwasanaeth 24 awr a gynigir gan y Samariaid, a gweledigaeth y mudiad yw y bydd llai o bobl yn marw drwy hunanladdiad. Nid yw hunanladdiad yn anochel; mae'n bosib ei rwystro ac mae ymchwil fyd-eang wedi dod i'r casgliad mai'r allwedd i geisio rhwystro marwolaethau o'r fath yw'r cyfle i siarad a rhannu teimladau. Mae'r rhesymau am hunanladdiad yn gymhleth, ond y tu ôl i bob achos mae unigolyn sy'n gadael teulu a chymuned wedi eu dryllio gan eu colled. Yng Nghymru yn 2023, rhoddodd 356 o bobl ddiwedd ar eu bywydau, ac yn gyffredinol roedd cyfradd y marwolaethau'n uwch yn yr ardaloedd gwledig.

Ond nid oes rhaid bod â theimladau o hunanladdiad i gysylltu, fodd bynnag. Mae'r Samariaid yn cynnig gwasanaeth o gefnogaeth emosiynol i unrhyw un sy'n anobeithio, yn dioddef o broblemau iechyd meddwl, yn unig neu'n cael problemau perthynas. Yn




2023 ymatebodd y Samariaid i alwad am gymorth bob 10 eiliad, gan ateb 3.3 miliwn o alwadau am gymorth dros y gwahanol gyfryngau sydd ar gael i gysylltu. Y ffôn yw'r dull mwyaf poblogaidd o gysylltu o hyd ac atebwyd dros 3 miliwn o alwadau ffôn. Doedd dim eiliad pan nad oedd y Samariaid ar y ffôn yn gwrando. Mae'r gwasanaeth rhadffon Saesneg ar gael 24 awr y dydd bob dydd o'r flwyddyn ar **116 123**. Mae'r **Llinell Gymraeg** ar gael yn rhad ac am ddim hefyd o 7 tan 11 bob nos ar **0808 1640123**.

Y gangen gyntaf i gael ei sefydlu yng Nghymru oedd cangen Abertawe yn 1961. Agorwyd saith cangen arall dros y blynyddoedd, wedi eu lleoli yn y Rhyl, Bangor, Aberystwyth, Llandrindod, Hwlffordd, Pen-y-bont ar Ogwr, Cymoedd De Cymru, Caerdydd a Chasnewydd, gan wasanaethu'r ardaloedd cyfagos iddynt. I ymateb i'r galw am y gwasanaeth, mae'r angen am wirfoddolwyr yn barhaus ac yn arbennig Gymry Cymraeg. Gellir darganfod mwy am sut i ddod yn wirfoddolwr ar wefan y Samariaid – www.samaritans.org neu, yng ngogledd Cymru, drwy'r wefan www.samariaidbangor.cymru.

Ar 20 Mai eleni bydd Cangen Gogledd-orllewin Cymru ym Mangor wedi bod mewn bodolaeth am 40 mlynedd. Ers hynny, yn 1984, mae'r gangen hon yn unig wedi ymateb i dros dri chwartrer miliwn o alwadau am gymorth, gyda dros 900 o bobl wedi cynnig eu hunain i wirfoddoli dros y blynyddoedd. I nodi'r achlysur cynhelir cinio arbennig ar 17 Mai, a bydd llyfr dwyieithog, wedi'i gyhoeddi gan y gangen, yn cael ei lansio yno. Yn y gyfrol, *40 Mlynedd o Wrando*, bydd gwybodaeth am fudiad y Samariaid a hanes 40 mlynedd cyntaf y gangen. Ei bris drwy'r post yw £13, a gellir archebu copi drwy ebost drwy gysylltu â tudur.colwyn@gmail.com

*Tudur Williams*

## Tŷ Barclay, Eglwys Bresbyteraidd Cymru

Mae Tŷ Barclay, ynghanol tref Aberystwyth, yn cynnig llety gwyliau hunanddarpar i weithwyr gweinidogaethol Eglwys Bresbyteraidd Cymru ar gyfer gorffwys a gwyliau. I archebu lle, cysylltwch â'r warden ar 01970 624802



Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru